# LLINELLAU A DDATGANWYD

## gan HOWARD HUWS

'Dwi wrth fy modd yn casglu taflenni baledi, gan eu bod nhw cystal drych o gyfnod a chymdeithas. Mae fy ngalluocach eisoes wedi trafod eu hanes a dangos eu harwyddocâd yn nhudalennau'r cylchgrawn hwn, ond hwyrach nad diflas gennych fuasai cyd-ddyfalu â mi ynghylch y meddylfryd y tu ôl i rai yn y casgliad acw.

Dyna'r dewis llun. Mae holl hyder agerog oes Fictoria yn tanio'r trên ar flaen baled David Jones, Llanybydder: 'Cân Newydd sef Taith gyda'r Railway o Benfro i Strata Florida'. Ia, os am gynnydd, y 'Manchester & Milford Railway' amdani, a dyma'r injan a'i llwyth enfawr yn ysgubo heibio i ryw werinwr syfrdan, a'i ferfa bitw. Mae'n gynhyrfus, mae'n aruthrol, a rŵan mae'r tân wedi cydio yn awen y bardd:

*Pwff, pwff mae'r Train yn starto,*
*Yn y boreu o Sir Benfro; . . .*

Ia, wel. Hwyrach nad amhriodol oedd iddo gloi'i folawd â hysbyseb 'guano', 'ar werth yn awr gan John Jones yn ymyl Station Lanybyther'.

Llawn mor drawiadol yw'r ysgythriad ar bren ar flaen 'Damwain ym Mhwll Level yr Afon, Abernant, Aberdar' (1896). Dacw'r achubwyr ar gyrraedd, ond yng ngolau'r llusern 'does ond chwalfa a chyrff meirw blith-draphlith. Llun amrwd, ond amhosibl ei anwybyddu. Cafodd y baledwr, pwy bynnag oedd, well hwyl arni na David Jones hefyd. Mae ail hanner y daflen yn Saesneg, ond 'does yna ddim llun yno.

Dau lun perthnasol i'r testun, ond nid felly pob tro. Mae rhai mor gyfan gwbl amherthnasol nes bod yn ysbrydoledig felly. Fy ffefryn yw baled gan Ioan Morgannwg ar daflen o wasg J. R. Jones, Aberteifi: 'Can Alarus, Sef hanes Chwech o Ddynion, pa rai a gytunasant a'i gilydd i Gymuno yn Enw'r Cythraul'. Ew! Yn Lloegr o bobman!

Grymusterau'r Fall yn ffrwydro yn wynebau meidrolion rhyfygus: testun sy'n hawlio llun i yrru'ch croen i gerdded. Llun brawychus; llun arteithiau; beth felly ysgogodd ddewis llun tri Tseinî yn mwynhau jôc rhwng cistiau te a choed bambŵ eu traeth pell?

* * * *

AM Y ffin â'r taflenni bychain mae yma rai maint ffwlscap yn dwyn cân ar un ochr. Y pedair o waith Joseph Jones, Llansantsiôr, er nad yw ei enw wrth y mwyaf diddorol ohonynt, sef 'Cerdd Newydd, Yn dangos allan gywreinrwydd a manylrwydd Forge Llan Elwy . . .'

Tybiwn mai bardd bro cylch Abergele oedd Joseph. Heblaw am hysbysebu rhagoriaethau efail Llanelwy, dyma farwnad Thomas Williams y ffariar o Lysfaen, a chân grefyddol (ar bapur lliw glas llachar) yn adrodd hanes Mordecai. Ia, a'r 'Llinellau a ddatganwyd ar ddydd y wledd yn Llansantsiôr . . . ar achlysur o ddyrchafu Dydd Priodas Albert Edward, Tywysog Cymru . . .'

Papur glas ai peidio, ni ellir honni ei fod yn rheng flaenaf etifeddion Taliesin. Ond ar dystiolaeth y gân briodas, anodd fuasai canfod ei well am wthio cymaint o saim eilunaddoliaeth i ddau bennill.

Nid nad oedd eraill wrthi. Caniatâi cystadleuaeth eisteddfodol ddigon o le i lyfu a seboni ac i bentyrru mawl yn un domen enfawr, darthog, aroglus. Adeg Eisteddfod Treforus 1854, dyma J. Jones, Pentre Estyll, Abertawe, yn taenu 'Can Er Canmoliaeth i J. H. Vivian, Ysw, A.S., A'i Feibion, am sefydlu a chynnal Ysgolion Yr Hafod' ar fesur pedwar curiad dros saith tudalen o daflen print mân.

Â ati *con brio* i utganu nerth ei berfedd. Vivian yw'r cyfan, Vivian yw'r oll, ac ar ei ddyngarwch a'i haelioni nid oes diwedd. Bron nad â i lewyg wrth ddisgrifio'r ysgol, lle 'roedd Gwir Ddysg ar gael i blant.

*Er deall yn gywir reolau'r Iaith Saes'neg;*
*Fel gallant fasnachu a'r Saeson celfyddgar*
*Pa rai welir heddiw, trwy bob rhan o'r ddaear.*

A phwy a ŵyr na fydd i rai o'r galluocaf gyfle i wasanaethu Fictoria, neu

*I draethu trwy'r ddaear'r efengyl drag'wyddol,*
*I amryw ganhedloedd sy'n para i addoli:*
*Eu delwau cerfiedig er's miloedd o flwyddi.*

Delwau tramor, hynny yw; nid eiddo'r Cymry.

Hwyrach nad oedd canu o'r fath ond i'w ddisgwyl yr adeg honno, pan ddibynnai cymaint ar wên neu wg Meistr a Lord. Gallwn ddadlau ynghylch achlysuron o wir newid a fu ers hynny, ond parheir i gofnodi achlysuron arbennig â thaflenni cân.

O leiaf gall 'Canghellor y Coleg' Dic Jones neu 'Beth yw'r Ots am y Mwt?' Myrddin ap Dafydd dystio na ddichon i faledwyr fagu asgwrn cefn heb i hynny wella ansawdd y canu yn ddirfawr.

---

**Manchester & Milford Railway.**

**CAN NEWYDD,**


SEF

***Taith gyda'r Railway***

O

**BENFRO I STRATA FLORIDA**

*Yng nghyd ag ychydig sylwadau ar y Gwaith oddi yno i Aberystwyth.*



Ar y Don Fechan,

Pwff, pwff mae'r Train yn starto,
Yn y boreu o Sir Benyfro;
Dyma gyfle am Manchester
Neu unrhyw-ran o Gymru a Lloeger.

Canwn glod gymru glan,
Canwn glod gymru glan,
Nawr i'r dynion gwych a dewrion
Am wneyd ffordd i'r Ceffyl Han.

Dyma ni wrth Orsaf Tenby,
Pasio Whitland gyda hyny,
I Saint Clears, a Bankyfelyn
Dyma ni yn nhre Caerfyrddyn.
Canwn glod, &c.


---

CAN ALARUS, 16-61

Sef hanes Chwech o Ddynion, pa rai a gytunasant a'u gilydd i

**GYMUNO YN ENW'R CYTHRAUL.**

*(Allan o'r "Christian Brothers' Magazine.")*



Y Cymry, hoff o rinwedd,
'Rwyf yn eich galw'n mla'n;
Rho'wch glust i wrando'n osteg,
Yn gywir ar y gân;
Cewch hanes chwech o feibion
Oedd ffyddlawn a chytun;
A sathru gwaith yr Arglwydd
Wnai'r chwech uffernol ddyn.

Y bobl aeth i'r dafarn
Yn foreu a di-gudd,
Ac yno hwy a yfent
Nes oedd yn haner dydd: